



Amcan Llesiant 7

Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Y canlynol yw ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

| Ymrwymiaidau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|--|--------|---|
| A - Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy | | |
| Byddwn yn cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn y sir drwy ddarparu'r cynllun tai fforddiadwy (7.3.2.24) <i>(Canlyniad 2017/18 – 235 / Targed 2018/19 – 236)</i> <i>(Targedau'r Dyfodol - 19/20 - 210, 20/21 - 196).</i> | ✓ | Cafodd 247 o dai fforddiadwy ychwanegol eu codi yn ystod 2018/19. |
| Byddwn yn darparu unedau tai fforddiadwy ychwanegol fesul 10,000 o aelwydydd. (PAM/036) <i>(Canlyniad 2017/18 - 14.1 / Targed 2018/19 - 9.5)</i> | ✓ | Yn ystod 2018/19, codwyd 15.4 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol fesul 10,000 o aelwydydd. Mae'r canlyniad wedi rhagori ar ein targed ac yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol. |
| Byddwn yn cynyddu nifer yr eiddo ychwanegol newydd sy'n cael eu rheoli gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol. (7.3.2.25) <i>(Canlyniad 2017/18 – 63 / Targed 2018/19 - 60)</i> | ✓ | Yn ystod 2018/19 fe wnaethom ychwanegu 61 eiddo ychwanegol newydd , i'w rheoli gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol. |
| Byddwn yn darparu cynllun comisiynu tai fforddiadwy clir a fydd yn llywio Cynllun Busnes y Cwmni Masnachu Tai Lleol sydd newydd ei sefydlu. (Cyf 13184) MF5-45 | ✓ | Rydym wedi datblygu rhestr fanwl o ddatblygiadau ar gyfer y Cwmni Tai Lleol yn unol â'r angen am dai. |
| Cyflwyno rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe i ddatblygu 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' i helpu i greu cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy a mynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith ein trigolion. (Cyf 13185) MF5-46 | ✓ | Mae achos busnes manwl bellach wedi'i ddatblygu bellach ar gyfer y prosiect "Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer" fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Bydd hyn yn arwain at gyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni ychwanegol mewn cartrefi newydd yn ogystal ag ôl-ffitio yn achos rhai presennol. Mae gwaith bellach wedi dechrau ar ddatblygu cynigion arloesol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. |
| Byddwn yn ymgysylltu â thenantiaid a phartneriaid allweddol i gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin ar gyfer pob eiddo sy'n berchen i'r Cyngor. (Cyf 13186) MF5-48 | ✓ | Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein cynlluniau ar ymgysylltiad â thenantiaid yn y dyfodol o ran llunio gwasanaethau, a chynnal arolwg boddhad tenantiaid gyda'r canlyniadau'n cyfrannu at y Cynllun Busnes. Bu i wybodaeth yn deillio o gyswllt wyneb yn wyneb drwy ein hymweliadau Gwirio Cartref, a'r Astudiaeth Effaith ar Iechyd (a roddai amcan clir o effaith Safon Tai Sir Gaerfyrddin ar iechyd tenantiaid), helpu i lunio'r cynllun busnes ar fuddsoddiad a gwelliannau pellach. |
| Byddwn yn helpu holl denantiaid y Cyngor wrth i'r newidiadau Diwygio Lles gael eu gweithredu a chyflawni'r cynllun gweithredu Credyd Cynhwysol er mwyn sicrhau'r incwm mwyaf | ✓ | Mae gennym gynllun gweithredu cynhwysfawr yn ei le sy'n targedu cymorth a chyngor i'r rheini y bydd y newidiadau diwygio llesiant yn effeithio arnynt fwyaf. Dechreuwyd cyflwyno'r cynllun yn Sir Gaerfyrddin ym mis Rhagfyr. Mae gennym |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ ✗ | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|--|
| posibl a datblygu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth newydd. (Cyf 12545) MF5-49 | | brotocolau ar waith gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n golygu ein bod yn cael gwybod pan fydd un o'n tenantiaid yn trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol. Mae swyddogion tai yn cysylltu â thenantiaid yn syth i'w cefnogi a'u cynghori o ran y prif newidiadau. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i helpu i reoli'r incwm maent yn ei gael mewn ffordd well. |
| Byddwn yn datblygu camau i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer ardal Heol yr Orsaf yn Llanelli drwy ymgysylltu â'r gymuned. (Cyf 13187) MF5-51 | ✓ | Rhoddwyd cyfanswm o 1788 o awgrymiadau unigol ar fodel 3D Ward Tyisha gyda 14 mater arall yn cael eu codi drwy'r gweithgaredd "Enfys". Y 4 prif thema – Diogelwch Cymunedol, yr Amgylchedd, Hamdden, a Thai – yn cynrychioli 1239 o awgrymiadau unigol gan gynrychioli 69% o'r cyfanswm. Y themâu a oedd yn cael y nifer lleiaf o awgrymiadau oedd Gwaith a Hyfforddiant (58 o awgrymiadau unigol, 3%) ac Addysg (57 o awgrymiadau unigol, unwaith eto 3% o gyfanswm nifer yr awgrymiadau). Mae gwybodaeth o ymgynghoriad y preswylwyr wedi cael ei rhoi i Arcadis, sydd wedi cael ei gomisiynu i weithio gyda'r grŵp llywio er mwyn llunio prif gynllun cyffredinol ar gyfer y ward. Ymagwedd prif gynllun Arcadis yw datblygu'r tair elfen o Ddylunio, Cyflawni a Hyfywedd gyda'i gilydd, llywio a llunio'r prif gynllun i ddod o hyd i gydbwysedd delfrydol ac i optimeiddio'r cynigion cyflawni. |
| Byddwn yn datblygu camau i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer ardal Heol yr Orsaf yn Llanelli drwy greu prif gynllun uchelgeisiol ond cynaliadwy. (Cyf 13188) MF5-51 | ✓ | Cafodd yr adroddiad 'Planning for Real' terfynol ei gyflwyno i Grŵp Llywio Tyisha ym mis Tachwedd 2018. Bellach mae'r canfyddiadau hyn yn sail ar gyfer datblygu prif gynllun manwl. Ymgysylltwyd ag arbenigwyr i weithio gyda ni a'r gymuned i ddatblygu'r cynllun hwn. |
| Byddwn yn datblygu camau i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer ardal Heol yr Orsaf yn Llanelli drwy ddatblygu cynllun cyflawni sydd wedi'i gostio. (Cyf 13189) MF5-47 | ✓ | Cafodd yr adroddiad 'Planning for Real' terfynol ei gyflwyno i Grŵp Llywio Tyisha ym mis Tachwedd 2018. Bellach mae'r canfyddiadau hyn yn sail ar gyfer datblygu prif gynllun manwl. Ymgysylltwyd ag arbenigwyr i weithio gyda ni a'r gymuned i ddatblygu'r cynllun hwn. |
| Byddwn yn cynyddu % yr eiddo preifat gwag sy'n cael eu defnyddio unwaith eto (PAM/013) (Canlyniad 2017/18 - 6.90% - 184 o breswylfeydd / Targed 2018/19 – 7.24% - 185 o breswylfeydd) Mae'r mesurau hyn yn cynnwys yr holl eiddo oedd yn wag o'r blaen ac nid tai fforddiadwy'n unig. | ✓ | Cafodd 189 eiddo (7.4%) o'r eiddo preifat gwag eu defnyddio unwaith eto yn ystod 2018/19, ac mae hyn yn uwch na'r targed ac yn welliant ar y flwyddyn flaenorol. |
| Byddwn yn cynyddu nifer y cartrefi newydd a grëir o ganlyniad i aildechrau defnyddio eiddo gwag (PAM/014) | ✓ | Cafodd 7 cartref newydd eu creu o ganlyniad i aildechrau defnyddio eiddo gwag yn ystod 2018/19. |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ ✘ | Sylw ar Gynnydd |
|--|--------|---|
| <p>(Canlyniad 2017/18 - 5 o breswylfeydd ychwanegol/ Targed 2018/19 - 6 phreswylfa ychwanegol) Mae'r mesurau hyn yn cynnwys yr <u>holl</u> eiddo oedd yn wag o'r blaen ac nid tai fforddiadwy yn unig.</p> | | |
| <p>Byddwn yn lleihau nifer gyfartalog y diwrnodau a gymerir i gwblhau atgyweiriadau tai Cyngor. (PAM/037) (Canlyniad 2017/18 - 16.6 diwrnod / Targed 2018/19 - 16.6 diwrnod)</p> | ✓ | <p>Canlyniad 2018/19 - 14.6 o ddiwrnodau. Mae hwn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol ac yn cydymffurfio â'r targed.</p> |
| <p>Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr holl dai Cyngor yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (PAM/038) (Canlyniad 2017/18 - 100% / Targed 2018/19 - 100%)</p> | ✓ | <p>Mae ein holl dai cyngor (100%) yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru</p> |
| <p>Byddwn yn cynnal % y rhent sy'n cael ei gollu oherwydd bod eiddo'n wag. (PAM/039) (Canlyniad 2017/18 - 2.3% / Targed 2018/19 -2.3%)</p> | ✘ | <p>Canlyniad 2018/19 - 2.9%. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r 2.9%, priodolir 0.52% o'r ffigwr cyfanswm i eiddo dal yn wag o achos penderfyniadau rheoli asedau strategol ynghylch eu defnydd yn y dyfodol. Dylid dod i'r penderfyniadau hyn yr hydref hwn a bydd gostyngiad ar unwaith yng nghanran y rhent cyffredinol a gollir. Mae ôl-groniad hefyd o dai gwag y mae angen gwneud gwaith mawr arnynt. Eir i'r afael â hyn hefyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon a dylid gweld gostyngiadau pellach o ran rhent a gollir.</p> |